# Canllawiau Ad-daliadau Ffioedd

## Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat - Gyrwyr, Gweithredwyr a Cherbydau

**Cyffredinol**

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi'r canllawiau ar gyfer pryd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn darparu ad-daliadau nid yn unig ar drwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat a ildiwyd ond hefyd ar geisiadau cerbydau hacni a hurio preifat a dynnwyd yn ôl.

Mae holl ffioedd cerbydau hacni a hurio preifat sy'n cael eu casglu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cael eu clustnodi a'u defnyddio i dalu am redeg gwasanaeth trwyddedu'r Cyngor ar sail adfer costau. Mae pob ffi ymgeisio wedi'i llunio i gymryd i ystyriaeth cost flynyddol cyflogau, cyngor cyfreithiol, gorfodaeth, deunyddiau traul, technoleg gwybodaeth, cyfarfodydd pwyllgor ac ati.

Yn achlysurol mae ad-daliadau yn bosibl ac yn cael eu gwneud ar gyfer trwyddedau a ildiwyd (ond nid os yw'r gyrrwr, y cerbyd neu'r gweithredwr yn destun ymchwiliad gan asiantaeth orfodaeth neu'r Awdurdod Trwyddedu).

Nid yw ffioedd a delir i asiantaethau allanol yn disgyn o fewn y canllawiau hyn ac ni ellir ad-dalu'r rhain.

I wneud cais am ad-daliad, ym mhob achos, mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded neu'r unigolyn ag awdurdod (os yw deiliad y drwydded wedi marw) wneud cais ysgrifenedig i trwyddedu@conwy.gov.uk. Mae'n rhaid i unrhyw ddogfennau, platiau, cardiau tariff, bracedi gael eu dychwelyd cyn i'r ad-daliad gael ei brosesu.

**Gyrwyr**
**Ceisiadau Newydd**

Mae'r ffioedd amrywiol ar gyfer cais am grant yn cynnwys sawl rhan ac nid yw rhai ohonynt yn ad-daladwy oherwydd bod yr Awdurdod Trwyddedu yn talu rhai asiantaethau allanol y llywodraeth am wybodaeth. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn talu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Mae ffi'r Prawf Gwybodaeth yn adlewyrchu'r amser y mae swyddogion yn ei dreulio yn gweinyddu'r prawf. Unwaith y bydd y prawf wedi'i gwblhau ni ellir ad-dalu'r ffi hwn.

Efallai y bydd adegau pan fydd ymgeisydd yn teimlo y gallai ei hanes blaenorol ei atal rhag dod yn yrrwr trwyddedig. Bydd Swyddogion Trwyddedu yn rhoi cyngor am y mater hwn cyn i'r broses ymgeisio ddechrau. Nid gwaith swyddog trwyddedu yw ceisio perswadio unigolyn i beidio ag ymgeisio am drwydded gyrrwr. Ond, dylai'r ymgeisydd fod yn ymwybodol y bydd yn rhaid iddynt wrth barhau â'u cais hefyd gymryd y goblygiadau ariannol cysylltiedig i ystyriaeth a'r posibilrwydd na fydd ad-daliadau yn bosibl. Os yw ymgeisydd yn penderfynu peidio â pharhau â'r cais ar unrhyw bwynt yn ystod y broses, efallai y bydd ad-daliad yn bosibl. Bydd swm yr ad-daliad yn cyfateb i'r cam y mae'r cais wedi'i gyrraedd yn y broses. Os yw cais yn cyrraedd mor bell â

gwrandawiad pwyllgor ac yn cael ei wrthod, mae'n annhebygol iawn y caiff ad-daliad ei roi.

Defnyddir y raddfa ad-daliadau ganlynol:-

| | **Ar ba bwynt y tynnwyd y cais yn ôl** | **Lefel yr Ad-daliad** |
|---|---|---|
| 1 | Cyn i ymholiadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a DVLA gael eu gwneud a chyn i lawer o waith gweinyddol gael ei wneud | 100% (yn cynnwys GDG a DVLA) |
| 2 | Ar ôl i ymholiadau gael eu gwneud gyda GDG a DVLA | 90% (ar ôl tynnu ffioedd GDG a DVLA) |
| 3 | Ar ôl i ymholiadau gael eu gwneud gyda GDG, DVLA a'r prawf gwybodaeth | 75% (ar ôl tynnu ffioedd GDG, DVLA a'r prawf gwybodaeth) |
| 4 | Ar ôl i ymholiadau gael eu gwneud gyda GDG, DVLA a'r prawf gwybodaeth ond ar ôl dychwelyd y prawf meddygol. | 50% (ar ôl tynnu ffioedd GDG, DVLA a'r prawf gwybodaeth) |
| 6 | Ar ôl i ymholiadau gael eu gwneud gyda GDG, DVLA, y prawf gwybodaeth ac ar ôl dychwelyd y prawf meddygol a chael gwybod am y penderfyniad i gyfeirio'r mater i wrandawiad pwyllgor | 40% (ar ôl tynnu ffioedd GDG, DVLA a'r prawf gwybodaeth) |
| 7 | Ar ôl i ymholiadau gael eu gwneud gyda GDG, DVLA, Prawf Gwybodaeth, dychwelyd y prawf meddygol a chanlyniadau profion DSA, cael gwybod am y penderfyniad i fynd â'r mater i wrandawiad pwyllgor a'r adroddiadau wedi'u cwblhau, mae gwrandawiad yn cael ei drefnu | 25% (ar ôl tynnu ffioedd GDG, DVLA a'r prawf gwybodaeth) |
| 8 | Ad-daliad yn dilyn gwrthodiad yng ngwrandawiad y Pwyllgor | Dim |

**Gyrwyr**
**Cais Adnewyddu**

Oni bai bod gyrrwr wedi methu â rhoi gwybod am euogfarn droseddol, yn methu prawf meddygol, mae'n annhebygol iawn y bydd cais i adnewyddu trwydded yrru yn cael ei wrthod ac o'r herwydd mae ad-daliad cais yr un mor annhebygol o godi. Os bydd cais am ad-daliad yn dod i law, bydd yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau.

**Gyrwyr**
**Trwyddedau a Ildiwyd**

Ni fydd gyrwyr nad ydynt bellach yn dymuno parhau i fod yn yrwyr trwyddedig, os yw'r drwydded mewn grym am gyfnod o fwy nag 1 mis, yn cael ad-daliad oni bai bod amgylchiadau eithriadol megis afiechyd a hyd yn oed marwolaeth gyrwyr.

**Cerbydau**
**Ceisiadau Newydd**

Gwneir ad-daliadau cerbydau cyn i unrhyw wrandawiad gael ei gynnal yn unig.

**Cerbydau**
**Trwyddedau a Ildiwyd**

Ni chaiff unrhyw ad-daliadau eu gwneud ar gyfer trwyddedau cerbydau a ildiwyd oni bai fod amgylchiadau eithriadol megis salwch a hyd yn oed marwolaeth gyrwyr.

**Trwydded Gweithredwr Cerbydau Hurio Preifat**

Ni wneir ad-daliadau am drwydded a ildiwyd oni bai eu bod yn cael eu hildio cyn pen chwe mis ar ôl iddynt gael eu rhoi, a didynnir ffi weinyddol o 25% o'r ad-daliad oni bai bod amgylchiadau eithriadol megis afiechyd a hyd yn oed marwolaeth gyrwyr.

This document is also available in English